# Papur y Bwrdd: Perfformiad Chwarter 4

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **20/21 Mai 2026** |
| **Teitl y papur:** | Adroddiad Perfformiad y Cynllun Busnes: Chwarter Pedwar |
| **Cyfeirnod y papur:** | 26-05-B06 |
| **Noddwyd y papur gan:** | Prys Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth) |
| **Paratowyd y papur gan:** | Sarah Williams (Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni)<br>James Cornelius (Arweinydd Tîm – Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol)<br>Tîm Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Sarah Williams (Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni) |
| **Diben y papur** | Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo Adroddiad Perfformiad Chwarter Pedwar y Cynllun Busnes. |
| **Crynodeb** | **Perfformiad Chwarter Pedwar:**<br>• **Perfformiad o ran ymrwymiadau'r cynllun busnes:**<br>○ Gwirioneddol Chwarter 4: 1 Coch, 9 Melyn, 18 Gwyrdd<br>○ Disgwyliedig ar gyfer Chwarter 4: 1 Coch, 9 Melyn, 18 Gwyrdd<br>○ Chwarter diwethaf: 0 Coch, 10 Melyn, 18 Gwyrdd<br>○ Mae gan bob maes Melyn a Choch lwybrau cytunedig i Wyrdd ar waith a fydd yn cael eu gwireddu yn 2026/27<br>• **Perfformiad mewnol:**<br>○ Gwirioneddol Chwarter 4: 0 Goch, 2 Melyn, 6 Gwyrdd, 1 Llwyd<br>○ Chwarter diwethaf: 0 Coch, 1 Melyn, 7 Gwyrdd, 1 Llwyd<br>○ Mae gan feysydd lle mae eitemau Melyn lwybrau cytunedig i Wyrdd ar waith<br>• **Perfformiad gwasanaeth:**<br>○ Mae'r gwasanaeth trwyddedu yn adrodd am 1 achos o statws Coch, 4 achos Melyn a 2 achos Gwyrdd |

| | |
|---|---|
| | ○ Mae'r gwasanaeth cynllunio yn adrodd bod statws Gwyrdd gan bopeth |

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn adrodd ar ein perfformiad chwarterol ar gyfer Chwarter 4.

2. Mae'n cyflwyno sefyllfa Chwarter 4 2025/26, gan gwmpasu'r canlynol:
   - Cynllun Busnes Blynyddol 2025/26 a'r cynnydd yn erbyn 28 o ymrwymiadau a'r prif fesurau cyflawni sy'n gysylltiedig â nhw
   - Detholiad o fesurau perfformiad mewnol
   - Detholiad o fetrigau perfformiad gwasanaeth allweddol

3. Caiff perfformiad ei asesu yn erbyn y chwarter blaenorol a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar yr ymrwymiadau hynny sy'n adrodd bod ganddynt statws Coch neu Felyn.

## Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 Cynllun Busnes 2025/26

4. Y chwarter hwn mae 1 ymrwymiad Coch, 9 ymrwymiad Melyn a 18 ymrwymiad Gwyrdd. Mae'r dangosfwrdd â'r set lawn o ymrwymiadau wedi'i gynnwys yn **Atodiad 1**. Y chwarter diwethaf roeddem yn rhagweld y byddai gennym 1 ymrwymiad Coch, 9 ymrwymiad Melyn a 18 ymrwymiad Gwyrdd. Ar lefel rifiadol mae'r ffigurau hyn wedi'u halinio; fodd bynnag, bu rhywfaint o symudiad bach o Wyrdd i Felyn ac i'r gwrthwyneb.

5. Tabl 1: Ymrwymiadau Coch/Melyn y cynllun busnes yn Chwarter 4

| Ymrwymiad | Gwirioneddol Chwarter 3 | Gwirioneddol Chwarter 4 |
|---|---|---|
| **Amcan Llesiant 1: Mae natur yn adfer** | | |

| **Ymrwymiad 2: Cyfuno tystiolaeth i nodi blaenoriaethau ar gyfer hysbysu ac ailhysbysu safleoedd sy'n cyfrannu at y targed 30 erbyn 30** | Melyn | Melyn |
|---|---|---|
| Ni fydd y **Llwybr i Wyrdd** yn cael ei wireddu tan Chwarter 1 2026/27: Ailflaenoriaethu fu'r gwaith dros y flwyddyn i ymateb i adroddiad SoDdGA Archwilio Cymru ac ymrwymiadau terfyn amser penodol eraill, gan arafu cynnydd ar y Llawlyfr SoDdGA diwygiedig (Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol 037). Mae cynnydd da wedi'i wneud ar y dystiolaeth sylfaenol a datblygu rhaglenni, gan gynnwys cwblhau Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig: adolygiad o'r gyfres gyfredol yng Nghymru (Adroddiad Tystiolaeth CNC Rhif 878), a dadansoddiad costio ac adnoddau cynhwysfawr ar gyfer rhaglen hysbysu 2026/27 yn cynnwys rhagamcanion hyd at 2030, sydd bellach yn llywio penderfyniadau ariannu mewn perthynas â bioamrywiaeth. Mae drafft terfynol o Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol 037 (Hysbysu, Ailhysbysu a Dadhysbysu SoDdGAau) wedi'i baratoi gyda Grŵp Arbenigol Nodiadau Cyfarwyddyd Gweithredol ac mae'n cynrychioli gwelliant sylweddol ar ganllawiau blaenorol; fodd bynnag, mae angen ymgynghori pellach a sicrwydd ansawdd cyfreithiol cyn cyhoeddi, felly mae'r elfen hon yn parhau i fod yn Felyn. Disgwylir cyhoeddi Nodyn Cyfarwyddyd Gweithredol 037 ym mis Mehefin 2026 bellach, yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol ym mis Ebrill, yna diweddariadau terfynol ac asesiad sicrwydd ansawdd cyfreithiol. | | |
| **Ymrwymiad 6: Datblygu'r capasiti a'r gallu o fewn CNC i sicrhau bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, gan ddarparu aml-fanteision a chyfleoedd amryfal ar gyfer natur a phobl** | Gwyrdd | Melyn |
| Ni fydd y **Llwybr i Wyrdd** yn cael ei wireddu tan Chwarter 1 2026/27: Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran sefydlu'r sylfeini ar gyfer cyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac mae trefniadau cynllunio rhaglenni, cyfathrebu a llywodraethiant ar waith gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Mae CNC wedi cyfrannu at ddatblygu canllawiau i ffermwyr ar gyfer yr haen Gyffredinol, wedi cefnogi manylebau ar gyfer yr haen Opsiynol, ac wedi bwrw ymlaen â throsglwyddo cytundebau Cynllun Cynefin Cymru i Gynlluniau Rheoli Safleoedd Dynodedig, ochr yn ochr â chwblhau'r rhan fwyaf o'r manylebau technegol ar gyfer camau gweithredu yn ymwneud â rheoli cynefinoedd. Mae gwaith meithrin gallu hefyd wedi symud ymlaen, gan gynnwys penodi swyddogion newydd ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a hyrwyddo datblygiad yr offer a'r canllawiau sydd eu hangen ar gyfer darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi'i gyfyngu gan heriau o ran llenwi rolau swyddogion amgylcheddol allweddol, ochr yn ochr â'r angen am hyfforddiant a chynefino sylweddol cyn y gellir dechrau'r ddarpariaeth lawn. Mae'r ymrwymiad yn parhau i fod yn Felyn ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r Llwybr i Wyrdd yn ddibynnol ar gwblhau recriwtio a hyfforddiant i ehangu graddfa'r gwaith i'w gyflawni. | | |

| **Amcan Llesiant 2: Cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd** | | |
|---|---|---|
| **Ymrwymiad** | **Gwirioneddol Chwarter 3** | **Gwirioneddol Chwarter 4** |

| | | |
|---|---|---|
| **Ymrwymiad 11: Adolygu’r dull blaenoriaethu ar gyfer cynnal a rheoli asedau llifogydd i sicrhau bod ein buddsoddiad yn seiliedig ar risg** | Melyn | Melyn |
| Ni chyflawnwyd y **Llwybr i Wyrdd** yn 2025/26: Mae cyflawni gwaith cynnal a chadw asedau llifogydd gan ddefnyddio'r Model Dyrannu Refeniw ar Sail Risg wedi parhau ar y trywydd iawn, ac mae’r ffaith bod y gwaith o ymgorffori'r dull yn parhau wedi gwella effeithiolrwydd gwaith cynnal a chadw arferol. Mae dros 34,000 o gamau cynnal a chadw wedi cael eu goruchwylio eleni, ac mae mwy na 18,500 ohonynt wedi'u cwblhau (54%), sy'n cyfateb i dros 51,000 awr o waith cynnal a chadw, gan sicrhau bod dros 90,000 o eiddo yn parhau i elwa o amddiffynfeydd rhag llifogydd. Fodd bynnag, mae cyflawni'r gwaith aml-flwyddyn ar Asedau sy'n Wynebu Newid wedi bod yn arafach nag a gynlluniwyd. Er bod y dadansoddiad wedi symud ymlaen, gan gynnwys gwaith i ddeall effeithiau cynnydd hirdymor yn lefel y môr ar amddiffynfeydd arfordirol a gofynion buddsoddi yn y dyfodol, nid yw'r holl elfennau a gynlluniwyd wedi'u cwblhau eleni oherwydd cymhlethdod technegol a blaenoriaethau sy’n cystadlu â’i gilydd. Bydd yr elfennau hyn sy'n weddill yn cael eu datblygu drwy thema addasu arfordirol Cynllun Buddsoddi Strategol Rheoli Perygl Llifogydd. Mae gwaith y Model Dyrannu Refeniw ar Sail Risg yn cynrychioli'r budd gweithredol mwy uniongyrchol a sylweddol, ac mae wedi'i gwblhau, tra bod gwaith yr Asedau sy’n Wynebu Newid yn parhau i fod yn rhan o addasiad strategol tymor hwy a dim ond yn rhannol y mae wedi'i gyflawni. O ganlyniad, mae'r sefyllfa gyffredinol yn parhau i fod yn Felyn, ac mae llwybr clir ar gyfer symud gwaith nad yw wedi’i gwblhau yn ei flaen yn y blynyddoedd i ddod, yn amodol ar adnoddau a chyllid. | | |
| **Ymrwymiad 13: Gwella'r gwasanaeth rhybuddio am lifogydd a'r system telemetreg i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynnal parhad gwasanaeth i gwsmeriaid** | Melyn | Melyn |
| Ni fydd y **Llwybr i Wyrdd** ar gyfer ailosod y system telemetreg yn cael ei wireddu tan Chwarter 1 2026/27. Mae craidd y system wedi'i adeiladu ac mae hyfforddiant defnyddwyr wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, mae’r dyddiad ‘mynd yn fyw’ a gynlluniwyd wedi'i ohirio tan fis Mai 2026 oherwydd problemau yn ymwneud â pherfformiad trosglwyddo data sy'n effeithio ar nifer fach o ragorsafoedd, ochr yn ochr â gwaith paratoi data sy’n arafach na'r disgwyl, dibyniaethau ar gyflenwi Digidol, Data a Thechnoleg, a chyfyngiadau parhaus o ran adnoddau o fewn y tîm telemetreg, sy'n parhau i fod â swyddi heb eu llenwi. Mae gweithgarwch gwelliant parhaus ar gyfer System Gwybodaeth Rhybuddion Llifogydd Cymru hefyd wedi symud ymlaen yn arafach nag a gynlluniwyd. Er bod datblygiadau allweddol megis gwella argaeledd data ar gyfer platfformau ehangach, gwelliannau i brosesau ar gyfer swyddogion dyletswydd, a gwaith i uwchraddio platfformau ar y gweill, mae cynnydd wedi'i gyfyngu gan gyfyngiadau mewn perthynas ag adnoddau ac oedi i'r offeryn Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. O ganlyniad, bydd y ddau faes yn parhau yn 2026/27 ac nid yw buddion llawn y system newydd yn cael eu gwireddu eto. Mae'n bwysig nodi bod y swyddogaeth graidd o anfon negeseuon rhybuddio am lifogydd yn parhau i fod yn gwbl weithredol, gan sicrhau parhad y gwasanaeth i gwsmeriaid wrth i welliannau pellach gael eu cyflawni. | | |
| **Ymrwymiad 14: Datblygu cyngor, canllawiau ac offer ar gyfer technegau a seilwaith carbon isel, gan gynnwys dal carbon a hydrogen, er mwyn gwella ansawdd ceisiadau a gyflwynir gan ddiwydiant a lleihau'r amser sydd ei angen i wneud penderfyniadau ar geisiadau am drwyddedau unigol** | Melyn | Melyn |

| | | |
|---|---|---|
| Ni chyflawnwyd y **Llwybr i Wyrdd** yn 2025/26: Rydym wedi parhau i wneud cynnydd cryf o ran cefnogi datblygiad technolegau carbon isel, gan gynnwys cyflawni prosiectau allweddol megis cynhyrchu hydrogen a dal carbon, ac mae sawl cynllun wedi cyrraedd y cam Penderfyniad Buddsoddi Terfynol ac eraill wedi symud ymlaen i benderfyniad sydd wedi'i gefnogi trwy ddefnydd wedi'i dargedu o'r Model Gweithredu Targed. Mae gwaith i ddylanwadu ar bolisi ac ymgorffori dulliau Systemau Rheoli Amgylcheddol hefyd wedi datblygu trwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, prosesau Technoleg Orau sydd ar Gael y DU, a rhanddeiliaid ym maes diwydiant. Yn ogystal, mae gwelliannau o ran adrodd am allyriadau safleoedd tirlenwi a pherfformiad gweithredol wedi'u cyflawni trwy'r Prosiect Lleihau Allyriadau Tirlenwi, gan wella ansawdd data yn sylweddol a lleihau effeithiau allyriadau. Er bod yr holl fesurau cyflawni allweddol yn adrodd yn Wyrdd, mae canllawiau wedi'u cyhoeddi'n gyfyngedig ac rydym yn gweithio gydag eraill i bontio'r bylchau. Mae canllawiau pellach i'w cyhoeddi yn Chwarter 1 2026/27 i gynorthwyo datblygwyr a gweithredwyr ymhellach. | | |
| **Amcan Llesiant 3: Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf** | | |
| **Ymrwymiad 18: Cynnal archwiliadau fferm o dan y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol, yn unol â'r polisi cosbau gorfodi, i leihau llygredd** | Melyn | **Coch** |
| Nid oedd modd cyflawni'r **Llwybr i Wyrdd** yn 2025/26: Mae cyflawni archwiliadau o ffermydd o dan y Rheoliadau Llygredd Amaethyddol wedi gwella yn ystod Chwarter 4. Cwblhawyd 111 o archwiliadau yn y chwarter a chyflawnwyd 558 (70%) dros y cyfnod o 12 mis; fodd bynnag, mae perfformiad yn parhau i fod islaw'r targed. Mae lefel uchel o ddiffyg cydymffurfio ar gyfer yr archwiliad cyntaf yn parhau i fod yn ffactor hollbwysig, yn parhau i fod tua 50%, sy'n cynyddu'n sylweddol lefel yr ymdrech reoleiddio sydd ei hangen, ac mae achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cymryd llawer mwy o amser i'w datrys trwy weithgarwch dilynol. Yn ogystal, mae trosiant staff parhaus wedi effeithio ar y ddarpariaeth, mae yna nifer o swyddi gwag, ac mae recriwtiaid newydd yn cymryd sawl mis i fod yn ddigon cymwys i gynnal yr arolygiadau cymhleth hyn. Mae cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas ag adolygu ein dull o flaenoriaethu archwiliadau, dulliau gorfodi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac mae dull cyflawni a thargedau diwygiedig yn cael eu hystyried gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth yn y dyfodol. | | |
| **Ymrwymiad 21: Darparu her a chyngor i gwmnïau dŵr i sicrhau bod eu rhaglenni buddsoddi yn lleihau risgiau ac effeithiau eu gweithrediadau ar yr amgylchedd** | Melyn | Melyn |
| Nid oedd modd cyflawni'r **Llwybr i Wyrdd** yn 2025/26 ac roedd un mesur cyflawni heb ei ddechrau ac wedi'i ohirio i 2026/27: Rydym wedi cwblhau dau fesur cyflawni: darparu her a chyngor i gwmnïau dŵr, gan gynnwys cwblhau cyngor ar gynlluniau sychder a datblygu blaenoriaethau ac ysgogwyr cynnar ar gyfer Adolygiad Prisiau 29 drwy broses Gofynion Amgylcheddol Strategol Diwydiant Dŵr Cymru, ochr yn ochr â gwaith parhaus gyda chwmnïau dŵr i wella olrhain ar gyfer Cynllun Rheoli Asedau 8. Fodd bynnag, mae gwaith i gyflawni rhaglen archwilio hunanfonitro'r gweithredwr wedi'i ohirio oherwydd cyfyngiadau o ran capasiti o fewn y Tîm Cydymffurfedd Dŵr. O ganlyniad, nid yw'r rhaglen archwilio wedi'i chynnal eleni ac mae wedi'i haildrefnu i'w chyflwyno yn 2026/27. Er bod dau o'r tri mesur cyflawni allweddol wedi'u cwblhau'n llwyddiannus, mae'r anallu i gyflawni'r archwiliadau hunanfonitro'r gweithredwr fel y cynlluniwyd yn golygu bod yr ymrwymiad cyffredinol yn parhau i fod yn Felyn ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae cynllun clir ar waith i ailddechrau yn 2026/27. | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Ymrwymiad 23: Ymgorffori newidiadau i'r dull rheoli digwyddiadau a ffyrdd o weithio i alluogi ymateb â blaenoriaeth i ddigwyddiadau, gan ganolbwyntio adnoddau ar y rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf** | Melyn | Melyn |
| Nid yw'r **Llwybr i Wyrdd** wedi'i gyflawni a bydd angen gwaith parhaus i ymgorffori'r newidiadau i'n dull gweithredu ar draws grwpiau busnes: Mae cynnydd clir wedi'i wneud, ac mae'r dull a'r mecanweithiau olrhain bellach wedi'u sefydlu. Mae'r dystiolaeth yn dangos newid parhaus mewn ymddygiad dros y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys llai o bresenoldeb mewn digwyddiadau sydd wedi'u brysbennu'n isel. Mae hyn yn dechrau rhyddhau capasiti fel y cynlluniwyd. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i sicrhau bod adnoddau'n cael eu hailgydbwyso'n gyson ar draws y sefydliad. Er bod gwelliannau ym meysydd megis rheoleiddio dŵr a gwastraff yn amlwg, mae angen gwaith parhaus mewn perthynas â Gweithdrefnau Gweithredu Safonol, aliniad, a chymhwyso cyson. | | |
| **Ymrwymiad** | **Gwirioneddol Chwarter 3** | **Gwirioneddol Chwarter 4** |
| **Ymrwymiad 24: Gwella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n sbarduno digwyddiadau llygredd ledled Cymru er mwyn llywio'r camau gweithredu sydd eu hangen i leihau llygredd a sicrhau bod ein hymateb i ddigwyddiadau wedi'i dargedu ac yn effeithiol i gefnogi'r nod hwnnw** | Melyn | Melyn |
| Ni fydd y **Llwybr i Wyrdd** ar gyfer rhai mesurau cyflawni yn cael ei gyflawni tan 2026/27: Rydym wedi cryfhau ein dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n achosi digwyddiadau llygredd, drwy gwblhau dadansoddiad manwl a synthesis o ddata sydd wedi bod yn sail i adroddiad ac i waith i ddatblygu dangosfwrdd perfformiad digwyddiadau. Mae hyn wedi gwella ein dealltwriaeth o fathau o ddigwyddiadau, ynghyd â'u lleoliadau, eu heffeithiau a'u defnydd o adnoddau, sydd bellach yn llywio blaenoriaethu a chamau gweithredu wedi'u targedu ar draws meysydd busnes. Gwnaed cynnydd hefyd o ran ymgorffori dull ataliol sy'n seiliedig ar risg o fewn y Strategaeth Rheoli Digwyddiadau, gyda chymorth offer wedi'u diweddaru, canllawiau ac ymgysylltiad, er mwyn alinio gwybodaeth am ddigwyddiadau â gweithgarwch cydymffurfio a gorfodi. Mae Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer materion blaenoriaeth wedi'u cwblhau a'u cyhoeddi; fodd bynnag, mae'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol swyddogaethol mwy cymhleth ac ymgorffori dull cyson o drosglwyddo'r ymateb i ddigwyddiadau i weithgarwch busnes fel arfer yn gofyn am fewnbwn, profion a chytundeb pellach ar draws y busnes. Mae'r gwaith o gyflawni'r elfennau hyn wedi symud ymlaen, ac mae cyfran o'r cynnwys wedi'i drafftio, ond bydd yn parhau i 2026/27. O ganlyniad, er bod tystiolaeth, offer a dulliau sylfaenol allweddol bellach yn cael eu defnyddio, mae'r gweithrediad llawn yn parhau i fod yn Felyn tra bo'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonol swyddogaethol a'r prosesau cysylltiedig yn cael eu cwblhau a'u hymgorffori. | | |
| **Ymrwymiad 26: Cryfhau ffyrdd o weithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd sector i wneud y mwyaf o weithredu ar y cyd ar dipio anghyfreithlon** | Melyn | Melyn |
| Ni fydd y **Llwybr i Wyrdd** ar gyfer rhai mesurau cyflawni yn cael ei gyflawni tan Chwarter 1 / Chwarter 2 2026/27: Mae tri Grŵp Partneriaeth Rhanbarthol wedi'u sefydlu ledled Cymru (yn y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd), er bod cynnydd yn y Gogledd wedi'i ohirio dros dro oherwydd trosiant staff a recriwtio parhaus. Mae gwaith i wella ein gallu ym maes tystiolaeth a gwerthuso wedi parhau, gan gynnwys datblygu dangosfwrdd Power BI ac offer | | |

| |
|---|
| ategol, ond mae'r ddarpariaeth wedi bod yn arafach nag a gynlluniwyd oherwydd salwch staff a swyddi gwag, gan ohirio'r broses gwblhau i 2026/27. Mae cynnydd ar ddiweddaru'r protocol tipio anghyfreithlon hefyd wedi'i effeithio gan gyfyngiadau o ran adnoddau ac oedi wrth recriwtio i rolau allweddol; fodd bynnag, gwnaed cytundebau i ddatblygu'r protocol o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol CLILC, gan ddarparu llwybr clir ymlaen. Bydd grŵp arbenigol yn cael ei sefydlu i symud y gwaith hwn ymlaen mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Er bod elfennau allweddol wedi'u datblygu'n dda, mae problemau o ran capasiti wedi cyfyngu ar y ddarpariaeth ar draws pob maes, a bydd yr holl waith sy'n weddill yn parhau i 2026/27, ac mae recriwtio ar y gweill i gefnogi darpariaeth well. |

## Adroddiad perfformiad mewnol

6. Ar gyfer Chwarter 4, **nid oes unrhyw eitemau â statws Coch, ond mae dwy eitem â statws Melyn a chwe eitem â statws Gwyrdd**. Mae Tabl 2 yn dangos yr ymrwymiadau hynny sydd â statws Coch neu Felyn yn Chwarter 4 yn ogystal â Llwybrau i Wyrdd. Gellid dod o hyd i ragor o fanylion yn Atodiad 2.

7. Tabl 2: Proses adrodd fewnol ar berfformiad Coch/Melyn yn Chwarter 4

| Mesur mewnol | Gwirioneddol Chwarter 3 | Gwirioneddol Chwarter 4 |
|---|---|---|
| **Sgwrs ar waith (AD)** | Melyn | Melyn |
| Mae'r **Llwybr i Wyrdd** wedi cael ei drafod gan y Tîm Gweithredol, gan gydnabod y bydd 2026/27 yn adlewyrchu blwyddyn o bontio i'n defnydd llawn o'r system newydd hon. Ffocws y Tîm Gweithredol yw sicrhau bod y sgyrsiau hyn yn digwydd. | | |
| **Ceisiadau mynediad at wybodaeth** | Gwyrdd | Melyn |
| Bydd y **Llwybr i Wyrdd** yn gweld camau'n cael eu cymryd o ran yr adnoddau staff, yr arweiniad a'r cymorth a ddarparwn i ddelio â'r ceisiadau hyn. | | |

## Metrigau gwasanaeth

8. Cyfeiriwch at **Atodiad 3** am grynodeb o fetrigau gwasanaeth.

9. O ran y Gwasanaeth Trwyddedu, mae ganddo gyfanswm o bedwar achos Melyn ac un Coch (ochr yn ochr â dau achos Gwyrdd). Arhosodd perfformiad y Gwasanaeth Trwyddedu yn Chwarter 4 yn gymharol sefydlog, a bu cyflawniad cryf yn erbyn yr amserlenni statudol ar gyfer trwyddedau morol, rhywogaethau a choedwigaeth a llai o ôl-groniadau mewn perthynas ag ansawdd dŵr, adnoddau dŵr a gosodiadau / Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o geisiadau yn rhoi pwysau ar wastraff a rhywogaethau, ac mae adnoddau dŵr yn parhau i fod yn Goch er gwaethaf perfformiad gwell a'r enillion disgwyliedig yn 2026/27. Mae gwaith ar y gweill i reoli risgiau Cynllun Rheoli Asedau 8 a chefnogi adferiad parhaus, tra bod gosodiadau / Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol yn dangos gwelliant graddol, gan adlewyrchu cyflawniad parhaus ochr yn ochr â phwysau capasiti a galw.

## Risgiau, y parodrwydd i dderbyn risg a chyfleoedd

10. Rydym wedi crynhoi'r themâu risg allweddol a nodwyd yn y datganiadau gan ohebwyr y Tîm Arwain fel a ganlyn:

11. Mae pwysau o ran niferoedd staff yn parhau i fod y risg a'r broblem fwyaf arwyddocaol, ac mae swyddi gwag, trosiant a gofynion hyfforddi/cynefino yn parhau i gyfyngu ar gyflawniad ar draws sawl ymrwymiad Melyn a Choch (Ymrwymiad 2, Ymrwymiad 6, Ymrwymiad 13, Ymrwymiad 18, Ymrwymiad 21, Ymrwymiad 26). Mae'r pwysau hyn yn arbennig o ddifrifol mewn meysydd arbenigol ac maent yn arafu cynnydd ac yn lleihau'r capasiti o ran cyflawni.

12. Mae problemau o ran capasiti yn cael eu gwaethygu gan flaenoriaethau sy’n cystadlu â’i gilydd a llwyth gwaith adweithiol, ac mae staff yn cael eu dargyfeirio i ymateb i ddigwyddiadau, gwaith statudol neu waith achos cymhleth, sy'n effeithio ar y ddarpariaeth a gynlluniwyd (Ymrwymiad 2, Ymrwymiad 24). Mae hyn yn arwain at oedi mewn perthynas â mesurau cyflawni allweddol a pherfformiad Melyn/Coch parhaus yn y meysydd yr effeithir arnynt.

13. Mae oedi hefyd yn cael ei achosi gan ffactorau y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol timau a bylchau mewn systemau, y ffaith nad yw’r offer TG cywir ar gael, neu ddelio â galw uwch na'r disgwyl a gwaith dilynol (Ymrwymiad 6, Ymrwymiad 13, Ymrwymiad 18, Ymrwymiad 21). Mae hyn yn gwneud i rywfaint o'r gwaith gymryd mwy o amser nag a gynlluniwyd ac yn atal cynnydd tuag at gyflawni statws Gwyrdd.

## Y camau nesaf

14. Bydd y Tîm Arwain, ar y cyd ag arweinwyr amcanion llesiant y Tîm Arwain, yn parhau i fonitro'r llwybrau arfaethedig i gyflawni statws Gwyrdd.

## Argymhellion

15. Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r adroddiad chwarterol, yr adroddiad perfformiad mewnol a’r metrigau gwasanaeth a nodi unrhyw risgiau.

## Rhestr atodiadau

**Atodiad 1** – Tabl perfformiad a siartiau ar gyfer dangosfwrdd y cynllun busnes
**Atodiad 2** – Adroddiad Perfformiad Mewnol
**Atodiad 3** – Manylion y metrigau gwasanaeth

## Y broses gymeradwyo / ymgynghori

| | |
|---|---|
| • **Cyfrifoldeb** | **Sarah Williams (Pennaeth Strategaeth Gorfforaethol a’r Swyddfa Rheoli Rhaglenni) a Prys Davies (Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Polisi a Thystiolaeth)** |

| | | |
|---|---|---|
| • | **Yn atebol** | Bwrdd CNC |
| • | **Ymgynghorwyd** | Tîm Arwain (perchnogion yr ymrwymiadau) / Tîm Gweithredol |
| • | **Hysbyswyd** | Tîm Arwain / Tîm Gweithredol / Bwrdd CNC |

## Annex 1 - Performance table and charts for Business Plan dashboard


### Table 1: Overall dashboard for 2025/26 Business Plan – Actual Reported Position

| | 2025/26 Business Plan commitment: | 2025/26 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 |
| WBO1: Nature is recovering | C1: Implement priorities in the NRW Nature Networks programme to maintain and improve the effective management of protected sites | Red | Green | Green | Green |
| WBO1: Nature is recovering | C2: Synthesise evidence to identify priorities for notification and renotification of sites contributing to the 30:30 target | Amber | Amber | Amber | Amber |
| WBO1: Nature is recovering | C3: Review the Natur am Byth partnership programme's 4-year delivery plan to evaluate, and as appropriate, refine, action for species most at risk of extinction in the final two years of programme | Green | Green | Green | Green |
| WBO1: Nature is recovering | C4: Communicate and build understanding of the condition of the Marine Protected Area Network to inform targeted action and improvements | Amber | Green | Green | Green |
| WBO1: Nature is recovering | C5: Integrate nature recovery evidence into the proposed new National Park process and management of existing AONBs and National Parks to improve decision making for nature | Green | Green | Green | Green |
| WBO1: Nature is recovering | C6: Develop the capacity and capability within NRW to ensure the successful implementation of the Sustainable Farming Scheme, delivering multiple benefits and opportunities for nature and people | Amber | Amber | Green | Amber |
| WBO1: Nature is recovering | C7: Implementing No Mow May, piloting new approaches to working with nature on the land and assets that we manage, identifying prioritised recommendations | Green | Green | Green | Green |
| Cross - cutting | C27: Advocate and support the use of the latest climate, nature and pollution evidence (including the interim SoNaRR Report 2025) in decision making amongst our public and third sector partners to facilitate a collaborative approach to delivery. | Green | Green | Green | Green |
| Cross - cutting | C28: Increased awareness and understanding of opportunities to drive action for nature, climate and pollution minimisation via our suppliers and partners delivered through our Procurement and Contracts Strategy | Green | Green | Green | Green |
| WBO2: Communities are resilient to climate change | C8: Invest in capacity building to enable delivery in 2025-26 and future expansion of the National Peatland Action Programme | Green | Green | Green | Green |
| WBO2: Communities are resilient to climate change | C9: Strengthen capacity and evidence informing spatial prioritisation to enable effective future restoration within marine and coastal habitats | Green | Green | Green | Green |
| WBO2: Communities are resilient to climate change | C10: Develop an integrated catchment approach in the Taff using the 'Taff Catchment Strategic Flood Management Plan' to facilitate collaborative action to support communities at risk of flooding | Green | Green | Green | Green |
| WBO2: Communities are resilient to climate change | C11: Review the prioritisation approach for flood asset maintenance and management to ensure our investment is risk based | Amber | Amber | Amber | Amber |
| WBO2: Communities are resilient to climate change | C12: Deliver capital projects and sustain levels of protection for properties to reduce flood risk | Green | Green | Green | Green |
| WBO2: Communities are resilient to climate change | C13: Improve the Flood Warning Service and Telemetry System to deliver efficiencies and maintain continuity of service to customers | Amber | Amber | Amber | Amber |
| WBO2: Communities are resilient to climate change | C14: Development of advice, guidance and tools on low carbon techniques and infrastructure, including Carbon Capture and Hydrogen, to improve the quality of applications submitted by industry and reduce the length of time to determine individual permit applications | Amber | Amber | Amber | Amber |
| WBO2: Communities are resilient to climate change | C15: Enhance evidence, guidance and pre-application advice to improve the quality of submissions for planning permissions and permit/licence applications | Green | Green | Amber | Green |
| WBO2: Communities are resilient to climate change | C16: Prioritise actions with the greatest cost benefit on carbon dioxide equivalent ($CO_2e$)/ greenhouse gases (GHGs) to deliver our annual prioritisation within the Net Zero Plan | Green | Amber | Green | Green |
| WBO2: Communities are resilient to climate change | C17: Implement prioritised actions in the NRW Net Zero Delivery Plan 2025-30 (relating to scope 3 emissions in our supply chain) | Green | Green | Green | Green |

| | 2025/26 Business Plan commitment: | 2025/26 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Q1 | Q2 | Q3 | Q4 |
| WBO3: Pollution is minimised | C18: Undertake farm inspections under Agriculture Pollution Regulations, in line with the enforcement sanctions policy to reduce pollution | Amber | Amber | Amber | **Red** |
| | C19: Undertake compliance visits at prioritised regulated sites to reduce pollution | Green | Green | Green | Green |
| | C20: Implement targeted regulatory activities for key business sectors and waste service providers to improve compliance with the Workplace Recycling Regulations | Green | Green | Green | Green |
| | C21: Provide challenge and advice to water companies to ensure their investment programmes reduce the risks and impacts of their operations on the environment | Amber | Amber | Amber | Amber |
| | C22: Set the ambition for water quality improvements at a catchment scale to build collaboration and deliver prioritised action | Amber | Amber | Green | Green |
| | C23: Embed changes to incident management approach and ways of working to enable a prioritised response to incidents focussing resource to those which cause the most harm | Amber | Amber | Amber | Amber |
| | C24: Enhance our understanding of the drivers of pollution incidents across Wales to inform the actions needed to minimise pollution and ensure our incident response is targeted and effective in support of that aim | Amber | Amber | Amber | Amber |
| | C25: Undertake investigation and enforcement action to minimise environmental harm | Green | Green | Green | Green |
| | C26: Strengthen ways of working with Local Authorities and third sector partners to maximise collective action on fly-tipping | Green | Green | Amber | Amber |

Key: Green = achieved; Amber = partially achieved; Red = missed

**Chart 1: Actual reported position for each quarter (along with anticipated year end position from each quarter)**



# Annex 2 – Internal Performance Report


The following pages provide the performance snapshot at the end of quarter four in relation to key measures relating to the ‘health’ of our organisation.

## Summary

The performance position*
(at the end of quarter four, March 2026) for the measures covered by this report is:

- Six green
- Two amber
- No red
- One grey

*(see next page for detail)*




* *Key*: Green - achieved; Amber – partially achieved; Red – missed; Grey – N/A (Not applicable)

# Amber or Red

**Customer and Communications:**

- **Access to Information requests** responded to within 20 days is Amber at the end of the quarter at 89%. We have seen a 38% increase in Access to Information requests this year as well as an increase in their complexity. We are taking action in relation to the staff resource, guidance and support we put towards dealing with these requests.

**Human Resources:**

- **Sgwrs in place** (staff priorities and development agreement) remains Amber at the end of the year, at 68%. This has previously been discussed at Executive Team. Collective action was taken by staff and managers across our organisation to address this, which improved the position from 39% (Red) at the end of quarter two.

* *Key*: Green - achieved; Amber – partially achieved; Red – missed; Grey – N/A (Not applicable)

# Green

**ICT:**

- **Information Commissioner's Office (ICO) reported incidents** is Green at the end of the quarter with no investigations ongoing and none requiring ICO reporting during the quarter.

**Customer and Communications:**

- **Access to Information requests** responded to within 20 days is Amber at the end of the quarter at 89%.
- **Complaints** responded to within service level is Green at the end of the quarter at 98%.

**Health and Safety:**

- **Health & Safety Near Miss reporting** is now Green with 47 near miss reports for March, which is an increase from March last year. In quarter two this item was Red.

**Governance:**

- **Declarations of Interest** (where people working for us declare when their official and/or private interests may be perceived to conflict with NRW's work) is Green at 95% at the end of the quarter.

**Finance:**

- **Payments performance** to our suppliers remains Green at the end of the quarter at 98%.

**Procurement and Contracts:**

- **Retrospective orders** Green at the end of the year with 5% of purchase orders being retrospective.

**Programme Management Office:**

- **Programmes and Projects Management** is Grey, as this item does not report a performance status as it is focussed on risk to delivery.

# Annex 3 – Service Metrics Detail

# 2025/26 Quarter 4 – Year End

## Performance of NRW Services

This section sets out the metrics demonstrating the performance of:

- Development Planning Advice Service (DPAS)
- Permitting Service
- Regulatory Enforcement Service

## Development Planning Advice Service[1]

### Key messages

The land use planning system is a key strategic delivery mechanism for managing the environment and natural resources sustainably. We are a specialist or statutory consultee in the development management process. This means that applicants, and authorities determining planning applications, should consult us on proposed schemes, which meet one or more of the

[1] data relates to quarter four 2025/26

criteria for where we are identified as a specialist or statutory consultee. When consulted we are required to provide a substantive response within prescribed statutory timescales.

In Quarter **four** we delivered:

- 100% of all formal consultations relating to Developments of National Significance (DNS) and Nationally Significant Infrastructure Projects (NSIP) were responded to within the required timescales. These included major renewable energy developments.
- 100% of Town and Country Planning Act (TCPA) “major” statutory pre-application consultations from developers were responded to within the required timescales.
- 98% of TCPA “major” planning consultations from Planning Authorities were responded to within the required timescales. These included large housing developments.
- 99% of TCPA “minor” planning consultations from Planning Authorities were responded to within the required timescales.

Performance demonstrates continued compliance with statutory requirements during the quarter.

| | | Quarter 3 2025/26 | | | | Quarter 2 2025/26 | | | | Quarter 1 2025/26 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Default statutory timeframes to respond, unless extension agreed with customer | Numbers received during the quarter | Numbers responded to in the quarter | Number late (outside of default/agreed extension) | % compliance | Numbers received during the quarter | Numbers responded to in the quarter | Number late (outside of default/agreed extension) | % compliance | Numbers received during the quarter | Numbers responded to in the quarter | Number late (outside of default/agreed extension) | % compliance |
| Town & Country Planning Act (TCPA) Minor Applications | 21 | 1642 | 1660 | 11 | 99% | 1431 | 1426 | 16 | 99% | 1414 | 1390 | 20 | 99% |
| Town & Country Planning Act (TCPA)“Major” Statutory Pre-applications | 28 | 84 | 88 | 0 | 100% | 80 | 72 | 0 | 100% | 72 | 80 | 6 | 92% |
| Town & Country Planning Act (TCPA) Major | 21 | 382 | 367 | 6 | 98% | 302 | 307 | 4 | 99% | 347 | 356 | 6 | 98% |
| Wales Infrastructure Consent (WIC): Statutory request for Pre-application service | 29 | 0 | 0 | 0 | 100% | Reporting starts Quarter 3 | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Development of National significance (DNS)/ Wales Infrastructure Consent Formal (WIC)Statutory pre-application** | 42 | 9 | 10 | 0 | 100% | 8 | 5 | 0 | 100% | 9 | 13 | 0 | 100% |
| **Development of National significance (DNS)/ Wales Infrastructure Consent (WIC)** | 35 | 13 | 14 | 0 | 100% | 22 | 15 | 0 | 100% | 21 | 23 | 0 | 100% |
| **Nationally Significant Infrastructure Projects (NSIP)** | 42 | 7 | 4 | 0 | 100% | 12 | 7 | 0 | 100% | 7 | 4 | 0 | 100% |
| **Local Development Plan** | varies | 12 | 13 | 0 | 100% | 12 | 13 | 0 | 100% | 9 | 12 | 0 | 100% |

The number of consultations received within a quarter may differ from the number of consultations responded to, as consultations can span reporting periods.

Natural Resources Wales (NRW) is required to produce an Annual Report on planning performance to Welsh Ministers by 1 July each yearTo mirror this annual reporting cycle, and to allow sufficient time for data validation and assurance (given the scale of the dataset), it has been agreed that in-year performance is reported to Sponsorship one quarter in arrears.

Reported figures reflect the number of consultations received, recognising that multiple consultations may relate to a single planning application.

Planning casework is managed jointly by Development Planning and Marine Casework teams.

Performance should be considered in the context of agreed extensions to statutory timescales, which are used where necessary to support proportionate, high-quality advice and decision-making.

Performance is assessed using the following RAG thresholds: Green: 98% and above. Amber: 94% – 97%. Red: below 94%.

# Permitting Service

## Key messages

**In quarter four we:**

- **Maintained high performance** for Marine, Species and Forestry permit applications compared to statutory timescales/ agreed level of service.

- **Reduced Queues** (delays in allocation to a Permitting Officer) in Water Quality and Water Resources regimes and sustained lower queue times in the Installations/RSR regimes.

- **Experienced increased pressures** in the Waste and Species regimes due to an upturn in application numbers relative to staff resources. Use of Agency staff and recruitment in the Species Team will help relieve pressures in 2026/27. Staff balancing to workload is under observation in the Waste Team.

- **Water Resources Permitting recovery –** determination timeliness improved again in quarter 4. This was expected as the team completed programmed licence renewals work where deadlines are not critical to operational needs. Queue reductions will likely result in improved KPI performance in 2026/27. We are developing plans to address emerging risks to service delivery associated with water company AMP8 engineering works. These will involve a combination of process improvements and staff/consultancy resource.

- **Installations/RSR Permitting recovery –** delays on allocation are being sustained around 9 months leading to gradual increased levels of KPI performance. These improvements are being established through a combination of developing new staff to full competence and using two external consultants to deliver specific permitting outcomes.


Ongoing improvements in service delivery throughout 2026/27 are somewhat dependent the volume and timing of new applications associated with industrial gowth, decarbonisation and nuclear new build.

| | Permit Determination[2] | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Regime** | **Quarter 1** | **Quarter 2** | **Quarter 3** | **Quarter 4** | **2025/26 – (number of decisions made in brackets)** |
| **Waste** | 77% | 74% | 71% | 76% | 76% (134) |
| **Installations/RSR** | 60% | 79% | 29% | 85% | 67% (71) |
| **Water Quality** | 84% | 100% | 50% | 83% | 72% (407) |
| **Water Resources** | 57% | 33% | 68% | 55% | 50% (162) |
| **Marine** | 100% | 100% | 100% | 97% | 99% (146) |
| **Species** | 96% | 95% | 94% | 87% | 92% (1598) |
| **Forestry** | 94% | 98% | 92% | 91% | 95% (448) |

2 We have statutory timescales for many of the permit types, where these don't exist we have agreed service levels. This information is in the public domain."95% of applications are determined within statutory timescales or agreed service levels"

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Overall (numerical mean) | **84%** | **88%** | **84%** | **85%** | **87% (2966)** |

**Red = 0-60%; Amber = 61-94% ; Green = 95-100%**



Permitting Delay on Allocation (Queues) - Regimes - Rolling Mean
Installations/RSR All Applications
Installations New Bespoke and Substantial Variations
Marine
Waste
WQ
WR
Species
Forestry
60
50
40
30
20
10
0
Average age on Allocation (Weeks)
F
M
A
M
J
J
A
S
O
N
D
J
F
M
A
M
J
J
A
S
O
N
D
2023/24
2024/25
2025/26

# Regulatory Enforcement Service

## Key messages:

NRW regulate a range of activities and apply a suite of enforcement responses for non-compliant or illegal activities to protect the environment, prevent pollution and ensure those we regulate prioritise environmental responsibilities. We undertake enforcement, to ensure that offences are dealt with consistently in a firm, fair and proportionate manner, with a focus on preventing and deterring further harm to the environment. We adopt a risk-based approach to enforcement, acting where there is evidence of an environmental offence and where there is public interest.

**Key Messages  Year to date (2025):**

- Up to 5 January 2026, our enforcement activity in 2025 resulted in 1,394 enforcement cases, covering 2,161 separate breaches.

- While our enforcement effort this year is in line with previous years, the reduction between 2024 and 2025 is attributed to a change in the way we record advice and guidance issued in our inspections programme under the Water Resources (Control of Agricultural Pollution) Regulations 2021.

- We use the full range of enforcement and sanctioning tools available to us, in combination, to achieve the best outcomes. The choice of tool used is dependent on the severity and nature of the offence, the willingness of the offender to comply with regulatory requirements, the evidential threshold and public interest factors. While serious breaches may warrant prosecution, our primary objective is to protect the environment by driving long-term compliance with environmental regulations.

- As of 5 January 2026, NRW has almost 359 cases remaining open and under investigation. This is due to the nature of our investigative and enforcement work, given the time it can take to investigate an incident, identify potential offenders, obtain legal opinion, and update our systems on progress and enforcement outcomes. In addition, a number of cases are being investigated post-conviction under the Proceeds of Crime Act 2002.

| Year | Total Cases | Total Offences | Offenders | Companies | Individuals |
|---|---|---|---|---|---|
| **2021** | 871 | 1,277 | 922 | 336 | 586 |
| **2022** | 891 | 1,244 | 944 | 315 | 629 |
| **2023** | 871 | 1,371 | 873 | 330 | 543 |
| **2024** | 1,365 | 2,435 | 1,268 | 632 | 636 |
| **2025 (YTD)** | 1,394 | 2,161 | 1,297 | 604 | 693 |
| **Total** | 5,392 | 8,488 | 5,304 | 2,217 | 3,087 |

| Enforcement output | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 *** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Under investigation** | 42 | 77 | 194 | 281 | 399 |
| **No further action** | 99 | 60 | 72 | 32 | 103 |
| **Advice & guidance *** | 386 | 314 | 448 | 1,403 | 788 |
| **Warning letters *** | 525 | 509 | 435 | 480 | 508 |
| **Notices** | 85 | 82 | 48 | 64 | 93 |
| **Fixed Penalty Notice** | 1 | 3 | 3 | | 3 |

| Enforcement output | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 *** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Permit revocation** | 2 | 2 | | | 3 |
| **Civil Sanctions** ** | 17 | 6 | 1 | 7 | 17 |
| **Formal caution** | 40 | 34 | 26 | 36 | 35 |
| **Insufficient evidence** | | 5 | 1 | 3 | 2 |
| **Prosecutions** | | | | | |
| • **Cases** | 33 | 62 | 87 | 81 | 64 |
| • **Charges** | 77 | 147 | 139 | 118 | 102 |
| • **Unsuccesful** | 3 | 16 | 13 | 7 | |
| • **Total fines** | £342,594 | £603,856 | £716,820 | £151,782 | £464,525 |
| • **Costs awarded** | £178,901 | £144,450 | £113,892 | £95,542 | £150,046 |

*This refers to advice and guidance or warning letters issued as an enforcement action. It therefore does not include informal advice, or advice, guidance or warnings that we issue during a compliance and monitoring activity

**NRW has a limited range of civil sanctions available currently